Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

# Gofynion Polisi Cymru Masnach Deg ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2026

## Mae Cymru Masnach Deg yn galw ar bleidiau gwleidyddol yng Nghymru i gyflawni’r canlynol:

### 1. Ymrwymo i feini prawf Cenedl Masnach Deg

Gweithio gyda Cymru Masnach Deg a chyrff eraill, statudol a gwirfoddol, i weithredu'r ymrwymiadau hyn, ac i asesu cynnydd.

Cenedl Masnach Deg yw un lle:

1. mae ymwybyddiaeth eang o Fasnach Deg;
2. mae ymgysylltiad sylweddol gyda Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o’r gymdeithas;
3. mae cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu defnyddio a’u cynhyrchu
4. mae cefnogaeth wleidyddol ac ymgysylltiad â Masnach Deg;
5. mae anghydraddoldebau mewn masnach fyd-eang a chymdeithas yn cael eu herio gan Fasnach Deg.

### 2. Cefnogi Caffael Cymdeithasol Gyfrifol

Cefnogi caffael cymdeithasol gyfrifol yn y meysydd canlynol:

- gweithrediadau uniongyrchol Llywodraeth Cymru
- sector cyhoeddus Cymru
- sefydliadau sy’n derbyn cyllid cyhoeddus
- cadwyni cyflenwi Cymru
- cymunedau lleol

### 3. Cynnwys Masnach Deg mewn arferion busnes yng Nghymru

Cefnogi busnesau i fabwysiadu dulliau moesegol, rhannu arferion da, ac alinio gweithgareddau hyrwyddo masnach yn unol â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

### 4. Integreiddio Masnach Deg mewn addysg a dysgu gydol oes

- Cynnwys egwyddorion Masnach Deg yn y cwricwlwm ysgolion, addysg uwch ac mewn hyfforddiant yn y gweithle i wella Addysg Dinasyddiaeth Fyd-eang ac ymwybyddiaeth o gynaliadwyedd.
- Cefnogi datblygu adnoddau dysgu a phartneriaethau ymchwil i ddyfnhau dealltwriaeth o Fasnach Deg.

### 5. Hybu cefnogaeth gyhoeddus trwy ymgyrchoedd a negeseuon

- Cefnogi Cymru Masnach Deg i gyflwyno ymgyrchoedd gyda neges wedi'i hadnewyddu, sy'n cysylltu Masnach Deg gyda heriau byd-eang fel gweithredu ar newid hinsawdd, yr Economi Llesiant, a hawliau dynol.
- Sefydlu Masnach Deg fel ateb systemig ar gyfer cyflawni cynaliadwyedd a thegwch.
- Cryfhau cefnogaeth ar gyfer busnesau Masnach Deg
- Cydnabod busnesau Masnach Deg fel bod yn hanfodol i ddatblygiad cynaliadwy, a darparu cefnogaeth benodol i'w helpu i gystadlu'n deg.
- Ehangu rhwydweithiau llawr gwlad, hyrwyddo BBaChau Masnach Deg, a chwilio am gyfleoedd i dyfu, i atgyfnerthu ymrwymiad Cymru i fasnach foesegol.

### 6. Hyrwyddo Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Defnyddio dylanwad Llywodraeth Cymru ar lefel y DU i hyrwyddo masnach deg, a chadwyni cyflenwi cynaliadwy.

Mewn strategaeth Ryngwladol yn y dyfodol, dylid cyfeirio mwy at fewnforion, at yr angen am gymorth ar gyfer cynhyrchu'n foesegol, ac i Lywodraeth Cymru ddefnyddio unrhyw ddylanwadau sydd ar gael i gefnogi cadwyni cyflenwi moesegol.

Mae ymrwymiad cyfrifoldeb byd-eang Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei groesawu, ac mae angen iddo barhau a chael ei ddatblygu.

## Masnach Deg:

Mae Masnach Deg yn fudiad byd-eang sy'n rhoi pobl a'r blaned o flaen elw. Pan fydd cynhyrchwyr yn derbyn pris teg am eu nwyddau, mae'n arwain at well amgylchedd gwaith a gwell ansawdd bywyd iddyn nhw a'u teuluoedd. Mae Masnach Deg yn cymryd agwedd gyfannol trwy gysylltu cynhyrchwyr a defnyddwyr trwy wneud cadwyni cyflenwi yn fwy eglur, a chynnig dewisiadau gwell ar gyfer siopa'n gyfrifol.

Dylai cyfiawnder, tegwch a datblygu cynaliadwy fod wrth wraidd strwythurau masnach gyfartal, ac mae Masnach Deg yn bartneriaeth ar gyfer newid a datblygu trwy fasnach.

Mae Masnach Deg yn cefnogi ei phartneriaid i gymryd perchnogaeth o'u busnes ac i rymuso gweithwyr i reoli eu dyfodol eu hunain a chydweithio'n ddemocrataidd. Pan fydd hyn yn digwydd, mae cynhyrchwyr yn fwy tebygol o ddewis datblygu arferion ffermio cynaliadwy a all helpu i liniaru'r difrod parhaus sydd yn cael ei achosi gan newid hinsawdd. Mae Masnach Deg hefyd yn cefnogi prosiectau datblygu cymunedol dan arweiniad cynhyrchwyr, addysg ac iechyd a hawliau dynol i bobl ar draws y byd.

Mae gennym ddiddordeb cyffredin mewn talu pris teg am yr hyn y mae ffermwyr yn ei gynhyrchu. Mae'r egwyddor o gefnogi cyflog teg a chadwyni cyflenwi cynaliadwy yn un sy'n berthnasol i ffermwyr ym mhobman, yma yng Nghymru ac yn y gwledydd o ble rydym yn mewnforio nwyddau. Nid dim ond Masnach Deg rydym yn hyrwyddo, ond dyfodol tecach i bawb.

Mae Cymru Masnach Deg yn cefnogi, yn tyfu ac yn dylanwadu ar ran y mudiad Masnach Deg yng Nghymru.

Rydym yn falch fod Cymru'n Genedl Masnach Deg.

Daeth Cymru yn genedl Fasnach Deg gyntaf y byd yn 2008, ac yn ddiweddar, fe wnaeth adnewyddu ei meini prawf Cenedl Masnach Deg.

Mae Masnach Deg yn bwysig i bobl yng Nghymru. Er enghraifft, canfuwyd trwy ymchwil Yougov a gynhaliwyd ar ran y Sefydliad Masnach Deg, bod 83% o bobl yng Nghaerdydd wedi prynu cynnyrch Masnach Deg yn y flwyddyn ddiwethaf. (1) Roedd 74% o'r bobl a wnaeth ateb ein harolwg yn ystyried cynhyrchiant moesegol fel bod yn bwysig wrth brynu ar-lein neu mewn siop. (2)

Mae grwpiau Masnach Deg yn gweithio yn eu cymunedau ar draws Cymru, yn codi ymwybyddiaeth, yn ennill cefnogaeth gan eu hawdurdodau lleol, ac yn gweithio gydag ysgolion a phrifysgolion. Trwy gefnogi Masnach Deg, a gwreiddio neges glir am hyn yn y polisi a darparu cymorth ymarferol, gall pleidiau gwleidyddol a Llywodraeth nesaf Cymru gefnogi dull moesegol at gynhyrchiant a chadwyni cyflenwi sydd â chefnogaeth eang. Dydy'r gwaith hwn erioed wedi bod mor bwysig, gan fod newid hinsawdd yn ychwanegu at yr heriau y mae'r ffermwyr yn eu hwynebu, sy'n cynhyrchu'r cynhyrchion rydym yn eu gwerthfawrogi, ac sydd eu hangen arnom.

## Cyfeiriadau:

(1) Arolwg YouGov Survey a gomisiynwyd gan y Sefydliad Masnach Deg ar gyfer Pythefnos Masnach Deg 2024

(2) Arolwg Beaufort, a gomisiynwyd gan Cymru Masnach Deg ac a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2024.

Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales